

# Chwarae dros Gymru

Rhifyn 13 HAF 2004



NEWYDDION CHWARAE A GWYBODAETH GAN Y SEFYDLIAD CENEDLAETHOL DROS CHWARAE

## Mesur Plant yn Cysylltu Lles gyda Chwarae

**C**afodd darn arall o'r jig-so fydd yn sicrhau fod gan blant hawl cyfreithiol i ddarpariaeth chwarae safon uchel ei roi yn ei le yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 17 Mehefin 2004. Am y tro cyntaf derbyniodd y Llywodraeth fod chwarae yn hanfodol ar gyfer lles plant.

Bu sefydliadau plant o bob rhan o Brydain, yn cynnwys Plant yng Nghymru a Chwarae Cymru, yn ymladd i gynnwys y gair "chwarae" yn y Mesur Plant sy'n mynd drwy'r senedd ar hyn o bryd. Canfyddwyd cyfeillion yn yr Arglwydd Pendry a'r Farwnes Finlay o Landaf a gyflwynodd welliannau i'r Mesur yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Yn Chwarae Cymru rydym yn aml yn cael ymholiadau os oes gofyniad cyfreithiol i Awdurdodau Lleol ddarparu ar gyfer chwarae plant. Ni fu'r sefyllfa yn glir. Er y medrwn ddyfynnu Polisi Chwarae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Confensiwn Rhyngwladol ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Addysg 1944, ni fu cyfraith sy'n dweud yn ddi-os fod yn rhaid i Awdurdodau wneud hynny.

Y Mesur yw'r cam nesaf ar ôl papur ymgynghori Llywodraeth y DG Every Child Matters a ddilynodd yr ymchwiliad i farwolaeth Victoria Climbié. Os caiff ei basio ac yna'n dod i rym (h.y. y Ddeddf Plant) bydd yn gosod

cyfrifoldeb cyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu ar gyfer lles plant. Ers peth amser mae wedi edrych fel pe na byddai'r Llywodraeth yn symud o ddefnyddio'r gair "hamdden" yn hytrach na "chwarae". Maent yn awr wedi dweud fod hamdden yn cynnwys chwarae.

**Siaradodd y Farwnes Andrew ar ran y Llywodraeth:**

Derbyniwn y gwelliannau hyn fydd yn weithredol yn Lloegr a Chymru. Rydym yn cytuno'n llwyr am y pwysigrwydd a ddodir ar chwarae fel agwedd ddatblygiadol o fywydau plant yn nhermau dysgu a mwynhad. Mae'n bwysig tu hwnt fod cyfleoedd ar gyfer chwarae anffurfiol yn ogystal â ffurfiol ... Yr ydym yn cydnabod fod hamdden yn cynnwys chwarae. Mae hynny'n dal lles ac elfen bwysig mwynhad a fedrai fod ar goll fel arall. Bydd chwarae yn elfen bwysig o hamdden. Gobeithiwn sicrhau y deellir hynny ... Yn y Pwyllgor gwnaethom yn glir y caiff elfennau allweddol o chwarae eu cwmpasu o fewn elfennau addysg a chymdeithasol lles plant. Gobeithiaf y bydd Arglwyddi yn hapus gyda'r canlyniad hwnnw.

**ac yn nhermau grym y Cynulliad Cenedlaethol i newid deddfwriaeth i Gymru:**

... bydd y Cynulliad yn rhydd i gynnwys chwarae mewn deddfwriaeth eilaidd.

Efallai nad yw hyn yn ymddangos yn arwyddocaol ar yr wyneb – digwyddodd ymhell i ffwrdd yn Nhŷ'r Arglwyddi (lle mae oedolion yn chwarae ar wisgo lan) ac mae rhai wedi holi pam y clustnodwyd cymaint o amser trafod i'r hyn a ystyriant yn fater dibwys. Fodd bynnag, mae'r goblygiadau yn bwysig eithriadol tu hwnt i ni yng Nghymru o gofio am Bolisi Chwarae y Cynulliad a gwaith y Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae. Os daw'r Mesur yn Ddeddf Seneddol bydd yr effaith taro-ymlaen yn gwneud gwahaniaeth enfawr i ymgyrchoedd i gadw neu wella darpariaeth chwarae yn ein gwlad ac nid yn lleiaf i fywydau plant.

*1 Dyfyniad yn gyfieithiad o Hansard 17 Mehefin 2004*

### Dim Penderfyniad ar Strategaeth Chwarae eto

Mae Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl penderfyniad ar y cynigion a gyflwynwyd ym mis Mawrth. Bydd Jane Hutt, Gweinidog Plant, yn cywrdd â Margaret Jervis, Cadeirydd y Grŵp, yn y dyfodol agos.

## Rhowch Gartŵn Chwarae Cymru ar eich Wal



**D**ros y blynyddoedd mae lluo o bobl wedi gofyn i ni am y cartwnau gwych a ddefnyddiwn yn ein holl ddeunydd print.

Cânt eu cynhyrchu gan ein cyfaill Les Evans sy'n byw ac yn sgriblo ac yn Abertawe, ac sy'n noddol bragdy Felinfoel (ar sail anffurfiol). Mae'n ffan mawr o'r Beano ac mae'n dweud mai ei ysbrydoliaeth yw'r Bash Street Kids.

Rydym wedi comisiynu poster arbennig, sef fersiwn 2004 o'r peintiad enwog 'Gemau Plant' gan Brueghel sy'n dathlu chwarae plant yn ei holl ddulliau. Mae'n hanfodol ar gyfer pob darpariaeth chwarae – fe welwch rywbeth gwahanol bob tro yr edrychwch arno.

Mae'r holl boster i'w weld ar ein gwefan ([www.playwales.org.uk/cyhoeddiadau](http://www.playwales.org.uk/cyhoeddiadau)) a daw'r holl ddarluniadau yn y cylchlythyr hwn o'r poster.

I archebu copi cysylltwch â Phillipa yn ein swyddfa genedlaethol (029 20486050) neu e-bost [phil@playwales.org.uk](mailto:phil@playwales.org.uk). Mae pob poster yn costio £4 a £1 postio a phacio.

### Enillwch Boster

Bydd y tri darlennydd cyntaf sy'n ffonio Phillipa gyda theitl llawn y poster ac enw'r artist gwreiddiol yn ennill poster.

ADOLYGIADAU GWERTHOEDD CHWARAE yn [www.playwales.org.uk](http://www.playwales.org.uk)

# GOLYGYDDOL

**C**roesawn y gwelliant i'r Mesur Plant i gynnwys chwarae. Os daw'n gyfraith, hwn fydd y gydnabyddiaeth gyfreithiol gyntaf fod chwarae yn hanfodol i les plant.

Bydd gan hyn oblygiadau pell-gyrhaeddol ar gyfer Awdurdodau Lleol. Pan basir y Mesur, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei ddefnyddio i osod dyletswydd ar bartneriaid statudol Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc i gydlynu i wella lles plant – a gaiff yn awr ei gydnabod i gynnwys chwarae. Byddwn yn ymchwilio sut y medrwn weithio gyda'r Partneriaethau Fframwaith i wneud yn siŵr y bydd unrhyw ddarpariaeth chwarae dilynol yn darparu cyfleoedd chwarae ansawdd uchel ar gyfer plant o fewn eu cymuned leol.

Bu sylw yn y wasg a'r cyfryngau yn ddiweddar ar fwriadu Cyngor Sir Penfro parthed ardaloedd chwarae. Cymerodd Tony Chilton, ein Uwch Swyddog Polisi, ran yn rhaglen Politics Show BBC Cymru ar y pwnc.

Ymddengys fod yr awdurdod lleol yn Sir Benfro wedi rhoi cyfrifoldeb i gynghorau cymuned a grwpiau cymunedol ar feysydd chwarae plant. Ar ôl trafodaeth maent wedi darparu peth arian cyfatebol (£500 y flwyddyn) ac wedi cytuno i dalu am gost yr yswiriant. Ond disgwylant i gymunedau lleol godi gweddill yr arian i gynnwys cynnal a chadw, gwelliannau ac arolygiadau. Credwn nad dyma'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n gweithredu yn yr un modd, er nad yw eraill wedi cael cymaint o sylw cyhoeddus.

Yma yn Chwarae Cymru byddem yn croesawu egwyddor cymunedau lleol yn rhannu cyfrifoldeb am eu hardaloedd chwarae lleol. Yn y ffordd hon, medrwn ddarparu ar gyfer anghenion plant lleol mewn modd llawer mwy sensitif a datblygu gofodau unigol sy'n adlewyrchu ein cymunedau eu hunain. Medrir ateb anghenion chwarae plant yn syml iawn yn aml os meddyliwn yn greadigol.

OND – a mae'n OND MAWR iawn – ni all cymunedau lleol ddarparu cyfleoedd chwarae safon uchel os nad oes ganddynt gyllid digonol a mynediad i gyngor a chefnogaeth arbenigol. Mae'n anodd iawn codi arian ar gyfer ardaloedd chwarae y tu allan i Awdurdodau Lleol, ac mae cynnal a chadw, diogelwch a gwelliannau i ardaloedd chwarae yn dioddef – weithiau i'r pwynt lle caiff y ddarpariaeth brin sydd ar gael eisoes ei gorfodi i gau. Nid yw hyn er lles neb, yn lleiaf oll y plant yr ydym yn ceisio diogelu eu llesiant.

Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn helpu i sicrhau na chynhelir datblygiadau o'r fath fel mesurau cyfyngu cost, ond mewn dull sy'n meithrin cymunedau cyfeillgar i blant.

**Mike Greenaway**  
Cyfarwyddydd

## CYNNWYS

• Golygyddol	T2
• Chwarae Cymru'n cwrdd â'r Arolygwyr	T2
• Cyrffiw Plant ger Caerffili	T3
• Coffâd – Miskey Sandison	T3
• Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru	T3
• Naid Ymlaen ar gyfer Hyfforddiant Gwaith Chwarae	T3
• Egwyddorion ar gyfer Gweithwyr Chwarae	T4
• Chwarae Plant Iach	T5
• Antur i Nuremberg	T6
• Teuluoedd a Chwarae	T7
• Arolyg Chwarae Plant	T7
• Digwyddiadau	T8
• Cyllid	T8

## Chwarae Cymru yn cwrdd â'r Arolygwyr

Fel rhan o'n gwaith parhaol gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, treuliodd Tony Chilton a Marianne Mannello, Swyddogion Datblygu Chwarae Cymru, ddiwrnod yn Llandrindod ym mis Mehefin gyda Uwch Arolygwyr o bob rhan o Gymru. Rhoddasant gyflwyniad yn canolbwyntio ar chwarae a gwaith chwarae mewn darpariaeth chwarae lle mae staff, a thanlinellu pwysigrwydd ymddygiad "a ddewisir yn rhydd a hunan-gyfeiriedig".

Trafodwyd nifer o faterion o ddiddordeb yng nghyswllt pethau megis chwarae gyda'r elfennau (yn arbennig tân) ac asesiad risg, a chaniatáu i blant ifanc iawn fynd a dod pan yn mynychu

darpariaeth chwarae mynediad agored.

Cytunwyd yn gyffredinol fod angen dynesiad archwilio ymatebol mwy cyson ar gyfer darpariaeth mynediad chwarae a darpariaeth arall lle mae staff. gan roi ystyriaeth i nodweddion cynlluniau lleol.

Dywedodd Jackie Evans o swyddfa genedlaethol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn Nantgarw: "Ar ôl cinio treuliodd y grŵp amser yn cael trafodaeth agored a diflewyn ar dafod ar feysydd o ddiddordeb, a themlai pawb y bu o fudd i'r ddwy ochr fod wedi treulio amser yn trafod â'n gilydd".

## Chwarae dros Gymru

Cyhoeddir gan Chwarae Cymru deirgwaith y flwyddyn. Dylid cyfeirio pob gohebiaeth ac ymholiadau at y Golygydd yn:

**Chwarae Cymru, Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH**

**Ffôn: 029 2048 6050 Ffacs: 029 2048 9359 E-bost: mail@playwales.org.uk**

Rhif Elusen Gofrestredig. 1068926

*Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr yma. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Bydd Chwarae Cymru yn cynnwys mewnddodion a hysbysebion yn y cylchlythyr hwn (cysyllter â Kathy Muse yn y cyfeiriad uchod i gael prisiau) fodd bynnag, nid ydym yn ardstio unrhyw rai o'r cynnyrch neu'r digwyddiadau a hysbysebir yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.*

*Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf. Ffôn: 029 2074 1150. E-bost: sales@carrickbusiness.co.uk Lluniau Cartyn gan Les Evans.*

# Cyrffyw Plant ger Caerffili

**A**r 18 Mehefin gweithredodd Heddlu Gwent un o'r rhybuddion gwasgaru acyntaf dan y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Nghymru – bydd yn parhau am ddwy flynedd. Yn Rhymni byddant yn medru gwasgaru grwpiau o fwy na dau o bobl heb fod dan arolygaeth dan 16 oed rhwng 9pm a 6am o'r gloch, a'u gorfodi i fynd gartref. Dywedir mai'r nod yw gostwng ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Gwyddom y bu cynghorwyr yn Llanandras, Powys, yn ystyried cymryd camau tebyg yn eu hardal. Yn anffodus, mae'r mesur hwn yn cadarnhau ofnau gwaethaf llawer o fudiadau plant a phobl ifanc a lobiodd yn erbyn Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Mae'r heddlu yn defnyddio Adran 30 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ac mae rhai o Gyngorwyr Bwrdeisdref Sirol Caerffili yn eu cefnogi. Mae un o'r cynghorwyr wedi cynnal arolwg oedolion a ddynododd yr ymddygiad "gwrth-gymdeithasol" gangiau fel achos o bryder. Ar wahân i hyn ni wyddom am unrhyw ymgynghoriad cymunedol swyddogol neu un oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc.

Fodd bynnag, gwyddom am waith ymgynghori o fewn Canolfan Teulu Pontlotyn, lle gwnaeth pobl ifanc fideo a ddefnyddiwyd yn rhaglen "On the Edge" ar Orchymnion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a ddarlledwyd ar HTV. Credent fod yr ASBOs hyn yn gwahaniaethu ar sail oedran oherwydd y gall ymddygiad oedolion fod hyd yn oed yn fwy "gwrthgymdeithasol" nag ymddygiad pobl ifanc, yn arbennig lle mae wedi ei waethygu gan alcohol. Credent fod yr holl bobl ifanc yn cael eu difrio, bod posibilrwydd y byddai unrhyw ymddygiad 'gwrthgymdeithasol' yn digwydd yn hytrach ynghynt yn y dydd ac y byddai "cyrffyw" yn llesteirio yn ddirifol ar amser a gofod chwarae plant a phobl ifanc. Yn ôl Leah Savory sy'n gweithio yn y Ganolfan, y consensws cyffredinol ymysg plant a phobl ifanc yw fod ASBOs yn "hurt".

Ymddengys fod rhan o'r broblem yn Rhymni yn deillio o gamddealltwriaeth oherwydd diffyg cyfathrebu. Dim ond mewn adroddiadau papur newydd y cafodd llawer o bobl leol unrhyw wybodaeth am yr

hysbysiad gwasgaru. Mewn gwirionedd mae'r hysbysiad yn weithredol i grwpiau o bobl dan 16 oed sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad "gwrthgymdeithasol" parhaol neu sy'n "brawychu, harasio, dychryn neu achosi gofid" i aelodau'r cyhoedd oherwydd eu hymddygiad neu bresenoldeb. Mae'r rhybudd gwasgariad yn weithredol mewn gwahanol rannau o'r dref ond yr effaith gyntaf fu gyrru'r holl blant a phobl ifanc oddi ar y strydoedd.

Dywedodd y South Wales Echo ar ddydd Llun 21 Mehefin fod strydoedd Rhymni yn wag ar ôl 9pm, ac yn dyfynnu pobl leol yn holi os oedd angen hyn. Dywedodd un fenyw: "Mae'r heddlu yn gwybod pwy sy'n achosi'r trafferth, ond mae'r holl blant eraill yn gorfod dioddef drwy orfod aros dan do ar nosweithiau'r haf." Dywedodd aelod arall o'r cyhoedd, "Mae'r problemau a gawsom yn lleol iawn, ac mae'n od mai'r ateb yw cau yr holl dref. Bu cwynion gan rai trigolion ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl wedi cael unrhyw drafferth".

Un darn o newyddion da o Loegr yw fod person yn ei ardegau o Ddwyrain Sussex wedi rhoi caniatâd i Liberty, y grŵp hawliau sifil, i geisio gwaharddeb yn erbyn yr heddlu, ar y sail fod yr ASBOs yn groes i Gonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Plant. Mae Liberty yn barod i fynd â'r achos i'r Llys Ewropeaidd. Mae Comisiynydd Plant Gogledd Iwerddon hefyd yn gweithredu ar y mater.



## COFFÂD

**G**yda thristwch mawr y cofnodwn farwolaeth ein cyfaill Miskey Sandison. Bu Miskey yn ysbrydoliaeth dros lawer o brosiectau yn ymwneud â phlant, teuluoedd a chymunedau, yn fwyaf diweddar yng Nghaerffili.

Roedd ei dynesiad ddi-lol, ynghyd â basgedi o deisennau a bisgedi, yn sicrhau ei bod yn torri drwy rwystrau hyd yn oed y cyfarfodydd mwyaf biwrocraidd. Roedd yn ymgyrchydd ddiflino dros blant a'u hawl i chwarae. Roedd yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd chwarae yn cefnogi dysgu ac yn rhagweld yn frwd gyrhaeddiad y Cam Sylfaen mewn addysg yng Nghymru.

Bydd llawer ohonom yn colli Miskey am ei brwdfrydedd, ymroddiad ac egni. Roedd yn ysbrydoliaeth fawr i weithio gyda hi a'i hadnabod, a bydd ei chyfraniad yn parhau yn y llu o brosiectau a sefydlodd ac a gefnogodd.

**Michelle Jones**  
Prosiect Chwarae  
Creadigol Caerffili

**Marianne Mannello**  
Chwarae Cymru

## Naid Ymlaen i

### Hyfforddiant yng Nghymru

**Yn y dyfodol, bydd yn rhaid i bob gweithiwr chwarae – hyd yn oed y rhai yn gweithio ar gynlluniau chwarae dros dro – gymhwyso i o leiaf Lefel Dau y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae.**

Er nad yw'r gofyniad hwn wedi ei ddodi yn ei le eto, bydd yr hyfforddiant yn golygu y gall darparwyr cynllun chwarae ateb safonau Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ar gyfer darpariaeth chwarae, a bwriedir iddo sicrhau gwaith chwarae ansawdd uchel ledled Cymru.

Bydd yn rhaid i weithwyr chwarae dros dro gwblhau hyfforddiant anwytho Lefel Dau sy'n eu cymhwyso am flyyddyn (medrant adnewyddu am rai blynyddoedd yn olynol). Bydd hyn yn helpu i ddatrys y broblem o recriwtio staff cymhwysedig ar gyfer cynlluniau chwarae i ateb safonau'r Arolygiaeth ac mae wedi ei anelu at bobl na fyddant yn ymarfer gwaith chwarae am ychydig flynyddoedd e.e. myfyrwyr.

Hyd yn ddiweddar nid oedd unrhyw anwythiad Lefel Dau yn benodol i Gymru a roddai ystyriaeth i oblygiadau Polisi Chwarae y Cynulliad Cenedlaethol a YR HAWL CYNTAF, dyfais sicrwydd ansawdd Chwarae Cymru. Fodd bynnag, mae Dynamix, y cywaith hyfforddiant o Abertawe, wedi creu cwrs a gymeradwywyd ym mis Mai sy'n seiliedig ar bopeth sy'n gwneud gwaith chwarae yng Nghymru yn unigryw.

**Cysyllter â Dynamix ar 01792 466231 neu gweler [www.dynamix.ltd.uk](http://www.dynamix.ltd.uk)**

## Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru

Os hoffech gyfle i gyfrannu at ein gwaith, mae Chwarae Cymru wedi newid ei gyfansoddiad yn ddiweddar ac yn awr yn dymuno penodi Ymddiriedolwyr ychwanegol. Os oes gennych ddiddordeb, ac yn teimlo y medrwyd gynnig arbenigedd ac ymrwymiad i'r swydd wirfoddol hon (y telir treuliau amdani) cysylltwch â ni am becyn cais os gwelwch yn dda.

**Diolch fawr iawn i Doug Cole, Swyddog Datblygu Chwarae Cyngor Sir Caerdydd, sydd wedi ymddeol o Fwrdd Chwarae Cymru. Aeth ef, ac aelodau eraill o'r Bwrdd, â Chwarae Cymru yn ddiogel drwy rhai amserau anodd ac fe'n helpodd i sefydlu nifer o brosiectau blaengar a chyffrous. Bu ei wybodaeth, profiad ac ymrwymiad i chwarae plant yn werthfawr tu hwnt.**

# Egwyddorion ar gyfer Gweithwyr Chwarae

**Yn y rhifyn diwethaf o Chwarae Cymru roedd adroddiad am yr adolygiad Prydain-gyfan o'r 'gwerthoedd a thybiaethau' y mae gwaith chwarae a'i hyfforddiant yn seiliedig arno. Cafodd Chwarae Cymru gyllid tymor byr ychwanegol i gynnal y gwaith. Ar y pryd rhagwelwyd y byddid wedi cwblhau'r adolygiad erbyn mis Mai (i ffitio i fewn gyda'r amserlenni cyllid) ond daeth yn glir yn fuan fod gweithwyr chwarae eisiau mwy o amser ymgynghori, ac na fedrid rhuthro'r gwaith pwysig hwn.**

Dechreuodd y prosiect gydag ymwybyddiaeth gynyddol fod 'gwerthoedd a thybiaethau' presennol gwaith chwarae, y seiliwn ein hymarfer arnynt, yn dod yn annigonol. Cynigiodd y corff hyfforddiant cenedlaethol SPRITO (bellach SkillsActive) adolygiad beth amser yn ôl, ond teimlwyd y dylai gweithwyr chwarae eu hunain, yn hytrach na'r sefydliad hyfforddiant cenedlaethol, greu eu set eu hunain o werthoedd neu egwyddorion. Ar y pryd awgrymodd rhai gweithwyr chwarae y medrai Chwarae Cymru ar y broses oherwydd ein gwaith ar ymarfer gwaith chwarae a'n cyhoeddiadau HAWL CYNTAF. Erbyn Hydref 2003 cafodd Chwarae Cymru y cyfle i dalu am gyllid ychwanegol i gynnal adolygiad. Ymgynghorwyd gyda'r holl sefydliadau sylweddol eraill oedd â diddordeb a gytunodd gyfrannu at y broses adolygu.

I ddechrau, cyflogwyd Bob Hughes (awdur A Playworker's Taxonomy of Play Types, YR HAWL CYNTAF, Evolutionary Playwork a chyhoeddiadau eraill) gan Chwarae Cymru i adolygu'r Gwerthoedd a Thybiaethau presennol ac i gynhyrchu man dechrau ar gyfer ymgynghori. Gofynnodd i ddau ymgynghorydd arall ymuno ag ef. Cynhyrchodd y grŵp set o ddogfennau i brocio'r meddwl, gan fapio hanes gwaith chwarae ym Mhrydain, a chyflwyno rhesymeg dros set o egwyddorion sy'n disgrifio chwarae, a phwrpas gwaith chwarae, yn y 21ain ganrif. Mae'r gwaith yn blaenori chwarae plant a ddewisir yn rhydd ac a hunangyfeirir, gan wneud rheoli darpariaeth chwarae a chydabyddiaeth agendâu cymdeithasol oedolion yn swyddogaeth fwy eilaidd gwaith chwarae. Fe'i dodwyd ar wefan Chwarae Cymru ar dudalennau Gwerthoedd Cam Un.

Yn ystod y broses penderfynwyd fod yr 'Egwyddorion' yn rhoi gwell ymdeimlad o fod yn sylfaen gyntaf y medrai gweithwyr chwarae weithio ohono.

Yn gynharach eleni, gwahoddwyd gweithwyr chwarae i ymateb i ddrafft cyntaf yr egwyddorion newydd yng Ngham Un yr ymgynghoriad Prydeinig. Ymatebodd dros 70 o bobl, yn cynnwys grwpiau a sefydliadau, un ai drwy wefan Chwarae Cymru neu mewn copi caled. Gofynnodd y mwyafrif o ymatebwyr i'r iaith fod yn rhyddach ei deall ac chytuno y dylai chwarae plant fod yn ganol gwaith chwarae. Roedd hefyd blê am fwy o amser ymgynghori.

Recriwtiwyd Grŵp Sgrwtini o weithwyr chwarae, hyfforddwyd gwaith chwarae a swyddogion datblygu chwarae yn



cynrychioli gwaith chwarae ledled Prydain i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Eu rôl yw gwneud dyfarniadau proffesiynol ar ymatebion ymgynghori a sicrhau fod y proses mor dryloyw ag sydd modd. Fe wnaethant gyfarfod ym mis Mai, a gwneud rhai newidiadau sylweddol i'r drafft cyntaf.

Mae Cam Dau yr ymgynghoriad wedi dechrau a bydd yn rhedeg hyd 10 Medi 2004. Gofynnir i chi fanteisio ar y cyfle i gymryd rhan drwy roi sylwadau ar y drafft diweddaraf a gyhoeddir islaw. Medrir gwneud sylwadau drwy ymweld â gwefan

Chwarae Cymru neu gysylltu â ni am gopi caled o'r dogfennau ymgynghori.

**I gael gwybodaeth bellach neu gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gweler [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk) neu [www.playwales.org.uk](http://www.playwales.org.uk) neu ffonio Gill Evans yn Chwarae Cymru 029 2048 050.**

Bydd Chwarae Cymru a'r Grŵp Sgrwtini sy'n mynd â'r adolygiad o Werthoedd Gwaith Chwarae rhagddo yn hoffi diolch i bawb a gymerodd ran yn y broses ymgynghori hyd yma.

## Ail Ddrafft yr Egwyddorion Gwaith Chwarae

Mae chwarae yn un o'r prosesau sylfaenol sy'n cynnal bywyd a dylai felly fod yn hawl. Mae gan bob plentyn angen i chwarae.

**Mae chwarae yn rheidrydd biolegol a seicolegol ar gyfer datblygiad iach yr unigolyn ac felly orosiad ein rhywogaeth.**

**Chwarae yw mynegiad ymddygiad a gafodd ei ddewis yn rhydd, ei gyfeirio'n bersonol a'i gymell yn fewnol. Hynny yw, plant sydd yn penderfynu ac yn rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae.**

**Mae'r broses chwarae yn bennaf ac â phwysigrwydd pennaf dros agendâu oedolion, cymdeithasol ac agendâu eraill.**

Y prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae.

**Rôl gweithwyr chwarae yw cefnogi plant wrth greu lleoliad lle medrant ymchwilio a meithrin eu hemosiynau, hunaniaeth a'u hamgylchedd, yn ogystal â'u gorffennol a'u dyfodol cyffredin.**

Mae ymateb gweithiwr chwarae i blant yn chwarae yn seiliedig ar wybodaeth gadarn a dealltwriaeth o chwarae.

**Mae unrhyw ymyriad gan weithwyr chwarae ar y cam hwn er mwyn galluogi plant i ymestyn y mathau o chwarae y maent yn ymwneud ag ef, ac i osgoi anaf uniongyrchol a difrifol i'w hunain ac eraill.**

Mae'r rhain yn egwyddorion trosfwaol sy'n trwytho datblygiad unrhyw bolisi chwarae, hyfforddiant gwaith chwarae a darpariaeth chwarae.

## Mae'n swyddogol – chwarae yw'r dull gorau o ymarfer i blant.

**Y**n ddiweddar cyhoeddwyd 'Making Children's Lives More Active', astudiaeth yr Athro Roger Mackett o'r Ganolfan Astudiaethau Cludiant ym Mhrifysgol Llundain, sy'n edrych ar y ffordd y mae plant oedran ysgol yn defnyddio egni yn eu bywyd bob dydd. Er fod plant yn defnyddio'r egni mwyaf mewn gwersi chwaraeon ac addysg gorfforol, mae'n cadarnhau eu bod yn cael yr ymarfer corfforol hwyaf a mwyaf gwerthfawr pan yn chwarae tu allan.

Bu cynnydd enfawr yn nifer y plant gordew ac anffit yng Nghymru. Yn ôl ymchwil ddiweddar gan Sefydliad Iechyd y Byd mae 23% o fechgyn a 17% o ferched Cymru yn ordew. Ond does dim angen ymchwil prifysgol i ddweud wrthym yr hyn y medrwn ei weld gyda'n llygaid ei hunan. Mae Mr Gerwyn Williams, Pennaeth Ysgol Gwaelod y Garth ger Caerdydd wedi gweld gostyngiad mewn lefelau ffirwydd ymysg ei ddisgyblion dros nifer o flynyddoedd. Dywedodd, "Roedd plant yn arfer bod yn llawer mwy ffir pan oeddent yn treulio mwy o amser yn chwarae tu allan."

Awgrymwyd ein bod wedi cyrraedd trobwynt lle mae ystod eang o dueddiadau wedi arwain at i nifer fawr o blant ddod yn anffit i'r graddau y mae eu bywydau yn debyg o gael ei gwtogi drwy salwch. Mae'r rhestr yn rhy gyfarwydd o lawer ac yn cynnwys: mwy o ddefnydd ceir, mwy o ofn (er ddi-sail i raddau helaeth) o "berygl dieithriad" yn achosi rhieni i rwystro eu plant rhag chwarae allan, mwy o ddefnydd o gyfrifiaduron a gemau electronig a gostyngiad mewn gofod chwarae digonol.

Yn 2002 cynhaliodd Cyngor Chwarae Plant (y sefydliad cenedlaethol ar gyfer chwarae plant yn Lloegr) ddadansoddiad o ymatebion plant a phobl ifanc i dros gant o ymgynghoriadau ar amser-rhydd a darpariaeth allan o'r ysgol. Roedd nifer llethol yr ymatebion yn gofyn am fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol a chwarae yn yr awyr agored. Eto mae ystadegau yn awgrymu mai dim ond 60% o blant sy'n cael cyfleoedd rheolaidd i chwarae allan.

**"Mae gadael i blant fynd allan i chwarae yn un o'r pethau gorau y gall rhieni ei wneud er lles eu plant,"** meddai'r Athro Mackett.

# Chwarae Plant IACH



Croesawn ymchwil yr Athro Mackett oherwydd ei fod yn ychwanegu pwysau i argymhellion Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae y Cynulliad, ac mae'n cefnogi'r achos dros fwy o fuddsoddiad mewn darpariaeth chwarae. Medrai hyn gynnwys: strydoedd lle cyfyngir defnydd ceir (Parthau Cartref), gwell ardaloedd chwarae cyhoeddus, diogelu pocedi o dir lle mae plant yn chwarae, mwy o gyfleoedd ar gyfer chwarae awyr agored mewn clybiau ar ôl ysgol, pob plentyn yn cael mynediad i diroedd ysgol addas ar gyfer chwarae ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cyhoeddus yn annog rhieni i gefnogi plant i chwarae allan ar ôl ysgol.

Mae Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Iechyd wedi galw am fwy o weithgaredd corfforol wedi ei drefnu mewn ysgolion, ond mae'r astudiaeth newydd yn awgrymu y medrai rhoi mwy o amser ar gyfer chwarae a gaiff ei ddewis yn rhydd a hunan-gyfeiriedig fod yr un mor effeithlon. Mae'n sicr y profwyd fod egwylliau ac amserau chwarae mewn ysgol yn werthfawr iawn yn nhermau iechyd plant. Mae'n codi cwestiynau am ddileu amser chwarae i blant fel cosb, mae'n cefnogi'r achos dros annog plant i fynd allan i chwarae beth bynnag y tywydd a rhoi amrediad o gyfleoedd ar gyfer chwarae corfforol o fewn tiroedd ysgol.

Mae'n aml yn her i wneud yr achos dros fuddsoddiad mewn darpariaeth chwarae pan fo gofyn i ni mor aml i brofi canlyniadau diriaethol. Bydd canlyniadau'r ymchwil hwn yn gymorth gwerthfawr.

### Casgliadau ymchwil yr Athro Mackett yw:

- Mae cerdded a chwarae yn rhoi mwy o weithgaredd corfforol i blant na'r rhan fwyaf o weithgareddau eraill.
- Bydd annog o blant i fod allan o'r tŷ yn cynyddu eu gweithgaredd corfforol.
- Gall cerdded i ac o'r ysgol fod yn well i blant na dwy awr yr wythnos o wersi addysg gorfforol a gemau.
- Bydd gostwng hyd amserau egwyl yn yr ysgol yn gostwng gweithgaredd corfforol plant.
- Mae plant sy'n cerdded i weithgareddau yn fwy actif pan gyrhaeddant na'r rhai sy'n mynd mewn car.
- Mae symud o weithgareddau allan-o'r-ysgol distrwythur i rai strwythuredig yn annog defnydd car.
- Y prif reswm pam fod plant yn teithio mewn car yw i fynd gyda'u rhieni ar dripiau.

I gael copi o'r ymchwil anfoner amlen hunan-gyfeiriedig gyda stamp neu e-bost i [info@playwales.org.uk](mailto:info@playwales.org.uk) ac i gael gwybodaeth bellach am yr ymchwil hwn cysyllter â'r Athro Roger Mackett, Canolfan Astudiaethau Trafnidiaeth, Coleg y Brifysgol Llundain Ffôn 020 7679 1554 neu e-bost [rlm@transport.ucl.ac.uk](mailto:rlm@transport.ucl.ac.uk)

Mae Cyngor Chwarae Plant wedi cynhyrchu dalen briffio "Children's Exercise and Play" sy'n cynnwys gwybodaeth o astudiaeth yr Athro Mackett. Medrir cysylltu â'r Cyngor Chwarae Plant ar 020 7843 6304.

# Antur yn Nuremberg

**D**aeth Inge Trepte a Kerstin Laue o Nuremberg i Gynhadledd Chwarae Ysbryd Antur i roi persbectif yr Almaen o weithio ar feysydd chwarae antur – a elwir yn Bauspielplätze neu Baui. Daw'r adroddiad hwn o'u gwaith o'u cyflwyniad a gweithdy.

*"Gyda ni gall plant gael hyd i fan lle medrant fod yn blant, lle perchir eu hurddas, lle medrir profiad natur a lle medrant ganfod pobl a fydd yn mynd gyda hwy ar eu ffordd drwy eu bywyd a meithrin eu datblygiad."*

Mae gan ddinas Nuremberg (poblogaeth 494,000 – ddwywaith maint Abertawe) saith maes chwarae antur a sefydlwyd am dros ddeng mlynedd ar hugain. Cyngor y Ddinas yw eu perchnogion ac yn eu staffio, ond caiff pob un ei redeg gan bwyllgor lleol er mwyn ateb anghenion lleol. Maent ar agor i bob plentyn rhwng 6 a 14 oed a all fynd i'r cyfleuster fel y mynnant y tu allan i oriau ysgol (daw'r diwrnod ysgol i ben amser cinio fel arfer). Mae gan bob maes chwarae ddau o staff gwaith chwarae parhaol, yn ogystal â myfyriwr ar leoliad, gwirfoddolwyr a gofalywr.

*"Os na fyddai unrhyw feysydd chwarae antur, byddai'n rhaid i rywun eu dyfeisio! Lle arall all plant gael profiad chwarae, natur, bywyd cymdeithasol a dysgu tebyg yn y ddinas? ... gallant ddringo coed, bod yn wirion, sgwrsio neu ddim ond gwneud dim"*.


Y brif nod yw rhoi lle i blant dyfu a chymryd rhan. Mae ymdeimlad clir mai amser hamdden y plentyn ei hun yw'r amser a dreulir yn y Bauspielplatz, ac mae gan y gweithwyr rôl faethu yn hytrach na gosod eu syniadau eu hunain. Mae bob amser bot o goffi ar y ffwrn ar gyfer rhieni a gofalywr sy'n galw heibio am gefnogaeth anffurfiol neu i gynnig help – mae hyn yn bendant iawn yn fenter gymunedol a theuluol.

Mae pob maes chwarae yn ardal wedi ei ffensiio o 3,000 medr sgwâr lle gall plant chwarae, ac mae mynediad i bren coed tân, dŵr, brics ac ati. Mae "tŷ gemau" gyda chegin, swyddfa, gweithdy, lle chwarae garw ac ystafelloedd cwtsh. Mae plant yn "cyd-ddylunio" yr ardal chwarae ac yn defnyddio offer a gwahanol ddeunyddiau i wneud eu cuddfannau a'u strwythurau eu hunain. Mae gofod i blannu cynyda a magu anifeiliaid. Felly gall plant gael y boddhad o gynhyrchu bwyd drostynt eu hunain.

Mae'r llysiâu a'r cywion yn y maes chwarae lle mae Inge yn gweithio yn rhoi'r cynhwysion ar gyfer y prydau y mae'r gweithwyr a'r plant yn eu paratoi a'u bwyta gyda'i gilydd. Mae hynny i gyd yn rhan o'r profiad cymdeithasol sydd ar goll ym mywyd bob dydd rhai plant. Mae'n glir fod plant yn gwirioneddol werthfawrogi'r amser hwn. Nid oes gan lawer ohonynt unrhyw fynediad i ardd a chânt eu bwydo ar fwyd wedi eu brosesu nad oes ganddo unrhyw gysylltiad â'i darddiad – felly mae edrych ar ôl planhigion ac anifeiliaid a choginio gyda'r canlyniadau yn brofiad newydd. Pan fo iâr yn mynd yn hen ac yn rhoi'r gorau i ddodwy wyau, mae cigydd lleol (a dreuliodd ei blentyndod yn y Bauspielplatz) yn dod i'r maes chwarae i'w lladd. Gall y plant edrych ac ymuno i bluo'r aderyn a'i baratoi ar gyfer y sosban os



Mae pawb yn bwyta gyda'i gilydd



Yn y tŵr



Coginio ffyn bara dros y tân

dymunant. Mae rhai ohonynt yn dewis peidio bwyta'r cawl cyw!

Anaml iawn mae mater cynhennus iechyd a diogelwch parthed plant a thannau yn codi. Mae gan bob tân fwcod o ddŵr neu dywod yn ei ymyl bob amser fel y medrir ei ddiffodd yn gyflym. Ychydig iawn o ddamweiniau sydd oherwydd fod y plant yn gyfarwydd iawn gyda'r risgiau – nid oes unrhyw blentyn yn dymuno llosgi. Os oes damwain yn digwydd, agwedd gyffredinol rhieni a swyddogion yw ei fod yn rhan o ddysgu a thyfu fyny. Mae mynediad fel y mynnant i'r tân, dŵr, offer a deunyddiau yn arferol, ac yn fideo Kerstin o noswaith yn y Bauspielplatz roedd grŵp o fechgyn yn chwarae pêl-droed yn ymyl tân heb arolygaeth. Roedd yn glir eu bod yn ymwybodol iawn o'u lleoliad ac yn osgoi cicio'r bel yn y cyfeiriad anghywir. Fe'u parchwyd ar gyfer eu galluoedd asesu risg eu hunain.

Nid oes fawr ddim ymyriad cyffredinol yn y ffordd y caiff meysydd chwarae eu rhedeg (dim trefnu gofrestru nag archwilio) oherwydd yn yr Almaen mae gan weithwyr chwarae gymwysterau lefel gradd cyn y medrant ymarfer. Fel rhan o'u hyfforddiant maent yn cwblhau lleoliad 12-mis mewn rhyw fath o ddarpariaeth chwarae a felly deuant i'r swydd gyda phrofiad ymarferol tymor hir. Cânt eu parchu fel arbenigwyr gyda chymwysterau da mewn dysgu plant o brofiad – ychydig fyddai'n herio eu barn. Cefnogir eu gwaith gan ddeddfwriaeth sy'n dweud y dylai pobl ifanc gael eu meithrin yn eu datblygiad unigol a chymdeithasol, ac y dylid

cynnal neu greu ansawdd cadarnhaol o fywyd, yn ogystal ag amgylchedd cyfeillgar i'r plentyn a'r teulu.

Mae gŵyl Baui fawr bob blwyddyn lle mae holl feysydd chwarae y ddinas yn ymuno i ddathlu eu gwaith. Gall y plant ddewis cyfrannu mewn amrediad o weithgareddau celf – ysgrifennu creadigol, cerddoriaeth, theatr, adeiladu set a paentio – sy'n cyrraedd eu pen llanw mewn perfformiad cyhoeddus yn un o barciau Nuremberg.

Agwedd arall o'u gwaith yw datblygiad cysylltiadau gyda gweithwyr cymdeithasol a swyddogion lles plant eraill er mwyn sicrhau lles rhai o'r plant sy'n mynychu. Fodd bynnag, mae perthynas y gweithwyr chwarae gyda plant a'u teuluoedd – yr ymddiriedaeth a adeiledir rhyngddynt – yn hollbwysig, ac maent yn gweithio'n ofalus ac yn sensitif iawn gydag asiantaethau eraill er mwyn peidio peryglu hyn.

Dros ddeng mlynedd ar hugain mae'r meysydd chwarae antur yn Nuremberg yn raddol wedi ennill llawer iawn o barch gan sefydiadau swyddogion, a gan y gymuned, am y gwaith a wnânt gyda phlant a phobl ifanc. Gadewch i ni obeithio y bydd y meysydd chwarae antur sy'n cael eu datblygu yng Nghymru yn rhannu'r un parch o fewn eu cymunedau eu hunain.

**Mae Inge a Kerstin yn frwd i ddod i gysylltiad â meysydd chwarae antur yng Nghymru. Eu cyfeiriad e-bost yw [team@baui.online.de](mailto:team@baui.online.de)**

# Teuluoedd a Chwarae

**M**ae Cymdeithas a Plant a'r Cyngor Chwarae Plant (y sefydliad cenedlaethol dros chwarae plant yn Lloegr) yn cydlynu diwrnod o ddigwyddiadau Diwrnod Chwarae ym mhob rhan o Brydain ddydd Mercher cyntaf mis Awst bob blwyddyn. Thema Diwrnod Chwarae eleni yw Teuluoedd yn Chwarae, ac fe'i cynhelir ar 4 Awst. Os hoffech drefnu digwyddiad diwrnod chwarae gweler [www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk) i gael gwybodaeth bellach.

Yn y cyfamser mae Chwarae Cymru yn cydweithio gyda Fforwm Magu Plant (y corff ymbarél yng Nghymru ar gyfer sefydliadau rhieni) a Chymdeithas Genedlaethol Llyfrgelloedd Teganau a Hamdden yng Nghymru i roi cyfarwyddyd i rieni ar y ffordd orau i gefnogi chwarae eu plant. Rydym hefyd yn anfon datganiadau i'r wasg i bapurau newydd a chwmnïau darlledu yng Nghymru.

Ymddengys mai'r ffasiwn ddiweddaraf mewn rhaglenni teledu (yn dilyn y ffasiynau peinti-wch-eich-sied-yn-biws a throwch-eich-ystafell-wely yn boudoir- Austin-Powers) yw dangos rhieni'n ceisio ymdopi gydag ymddygiad eu plant. Weithiau mae'n wirioneddol galed peidio neidio i fyny i lawr ar y sofffa yn gweiddi "Gadewch iddyn nhw chwarae!". Mae'n amlwg fod y berthynas rhieni a'u plant yn cael llawer o sylw ar hyn o bryd, a gobeithiwn y bydd yr awgrymiadau am fagu plant mewn modd sy'n annog chwarae yn helpu i wella bywyd teuluol a iechyd a hapusrwydd plant yng Nghymru.

Fel gweithwyr chwarae a rhieni profiadol (mae gennym 18 o blant ac 11 o wyrion rhyngom), gobeithiwn ni yn Chwarae y bydd hyn yn helpu i ymestyn y gair am gyfleoedd chwarae iach.

## Grym Chwarae i Rieni

### Mae plant yn chwarae drwy reddf

Os ydynt yn cael cyfle i chwarae o pan fyddant yn ifanc mae, mae plant yn debygol o fod yn hapusach, iachach a mwy bodlon. Drwy chwarae Cymru, medrwn ni fel rhieni a gofalwyr greu cwlwm cryfach gyda'n plant; medrwn eu helpu i fod yn barod i ymdopi gyda'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi; a medrwn eu helpu i ddsygu amdanynt eu hunain a'r byd o'u hamgylch.

### I helpu plentyn iach i dyfu mae angen i ni:

- o roi mynediad i ofod chwarae dan do neu awyr agored lle gall ein plant ymchwilio eu syniadau eu hunain. Mae plant wrth eu bodd yn yr awyr agored ac mae chwarae yn yr awyr agored yn helpu i'w cadw'n ffit.
- o rhoi amser i'n plant chwarae. Mae manteision i weithgareddau wedi eu trefnu a gemau electronig ond bydd ein plant yn iachach os ydynt yn cael digon o amser i chwarae.
- o caniatáu i'n plant fynd i'r afael â her corfforol fel cerdded ar hyd a neiduo oddi ar waliau a dringo coed
- o eu hannog i wisgo dillad y medrant symud o amgylch yn rhwydd ynddynt, ac nad yw o bwys os ydynt yn eu difrodi neu'n eu baeddu wrth iddynt chwarae
- o meddwl ddwywaith am lanastr. Beth sydd bwysicaf, datblygiad iach ei plant neu'r ffordd y mae ein cartref/gardd yn edrych tra'u bod yn chwarae?
- o rhoi deunyddiau craidd fel y gall ein plant eu haddasu fel y dymunant. Mae hen gynfasau, llinyn, dŵr, tywod, gro prenau, clustogau, papur, tâp gludog, creonau, paent neu flychau yn enghreifftiau o bethau sy'n rhoi gwerth chwarae gwych oherwydd y gall plant ddefnyddio eu dychymyg i'w troi yn unrhyw beth a fynnant
- o disgwyl i gael eu gwahodd i ymuno, a gadael i'r plant benderfynu sut, beth a pham eu bod yn chwarae. Os na chawsom ein gwahodd, mae angen i ni gymryd diddordeb yn yr hyn y maent yn wneud drwy ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau cadarnhaol yn ddiweddarach
- o dangos i'n plant sut i ddelio gyda traffig, pwysu a mesur pobl nad ydynt yn eu hadnabod a datblygu strategaethau i ymdopi gyda sefyllfaoedd peryglus, fel pan fyddant mewn oedran pan y medrent chwarae allan eu bod yn hyderus wrth wneud hynny
- o cofio yr hyn a hoffem ni ei wneud pan oeddem yn blant. Mae'n profiadau fel plant yn werthfawr – meddyliwch am ffyrdd i'w rhannu.

## YR AROLWG CHWARAE PLANT MWYAF ERIOED MAE'N DEBYG

**M**ae Chwarae Cymru, ynghyd â Chymdeithas Chwarae a Meysydd Chwarae Gogledd Cymru a Chynghorau Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd a Chonwy, yn cynnal yr hyn a all fod yr arolwg mwyaf erioed o chwarae plant i'w gynnal ym Mhrydain. Os yw'n gweithio'n dda yn y gogledd, gobeithir ymestyn yr arolwg i weddill y wlad.

Y nod yw casglu sylwadau plant a dynodi eu harferion chwarae pan nad ydynt yn yr ysgol. Anfonir arolygon manwl at blant a rhieni at ysgolion ym mhob rhan o'r ardal, yn rhoi cyfle iddynt fynegi eu sylwadau am ddarpariaeth chwarae lleol. Bydd yr arolwg yn helpu wrth ddynodi lle mae plant yn chwarae fel arfer a beth yw eu barn ar ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol. Unwaith y bydd canlyniadau'r astudiaeth wedi eu cywain, byddant yn cynorthwyo pob Cyngor Sir wrth benderfynu ar strategaethau'r dyfodol parthed cyfleoedd chwarae plant yn eu hardaloedd.

Dywedodd Tony Chilton, ein Uwch Swyddog Datblygu a luniodd yr arolwg: "Mae hon yn astudiaeth wirioneddol gyffrous a diddorol a

ddylai fod o fudd mawr i bawb sydd yn gyfrifol am gynllunio a rheoli darpariaeth chwarae cymunedol. Gobeithir y bydd ymarferiad mor fanwl yn rhoi tystiolaeth awdurdodol o ymddygiad chwarae plant yn eu hardaloedd. Dylai hefyd ddylanwadu ar ein dynesiad at y ffordd y cyflwynwn wasanaethau allan o'r ysgol i blant a phobl ifanc."

Rhagwelir y bydd dros 10,000 o blant o oedran ysgol o'r Gogledd yn cymryd rhan yn yr arolwg. Gofynnir i bob sir sefydlu proffil ar gyfer eu hardal eu hun yn ogystal â chreu persbectif rhanbarthol a fedrai arwain at i ardaloedd eraill ledled Cymru ddilyn yr arweiniad.

Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf yn Ewrop i gael polisi penodol ar gyfer chwarae plant – mae'n dilyn y dylai pob Awdurdod Lleol fabwysiadu strategaeth leol.

Dywedodd Tony: "Rwy'n gwybod fod nifer o awdurdodau yn y Gogledd yn cymryd dynesiad rhagweithiol a chadarnhaol iawn at ddarpariaeth chwarae. Mae rhai, megis Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam a Chonwy yn sefydlu golwg strategol ar chwarae yng

ngyhyswllt cynlluniau eraill megis y Strategaeth Gymunedol. Croesewir hyn yn fawr ond mae angen gwneud llawer mwy. Gobeithir y bydd yr arolwg yn help mawr wrth drwytho polisiâu'r dyfodol."

### I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

#### Tony Chilton

Chwarae Cymru, Swyddfa'r Gogledd  
Ffôn: 01745 851816 Ffacs: 01745 851517  
E-bost: [tony@playwales.org.uk](mailto:tony@playwales.org.uk)

Cyngor Sir y Fflint

**Janet Roberts** - 01352 752121

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Andrea Williams** - 01492 575559

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Mindy Bell** - 01978 317687

Cyngor Sir Ddinbych

**Matt Hayes** - 01745 583792

Cyngor Sir Gwynedd

**Bethan Ffloyd-Jukes** - 01248 679452

# Digwyddiadau

## Wild and Away – Cynhadledd Genedlaethol Gwaith Chwarae Amgylcheddol

### 23-25 Gorffennaf 2004 Swydd Caerloyw

Cynhadledd dan ganfas gyda siaradwyr cyweirnod Robin Moore (pwysigrwydd chwarae gyda natur ar gyfer datblygu plant) a Julian Richter (creu gofodau awyr agored creadigol ar gyfer chwarae plant). Cysyllter â Rebecca Dobson ym Mhrifysgol Caerloyw 01242 532 949 neu gweler [www.playwork.co.uk/wildaboutplay](http://www.playwork.co.uk/wildaboutplay).

## Diwrnod Chwarae Genedlaethol

### 4 Awst 2004

Gweler [www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk) i gael gwybodech bellach

## The Beauty of Play

### 10-12 Medi 2004, Swydd Stafford

Cynhadledd dan ganfas arall ar waith a gwaith chwarae yn cynnwys gweithgareddau ac adrodd stori

Ffôn Perry Else 0114 255 2432 neu e-bost [info.ludemos@virgin.net](mailto:info.ludemos@virgin.net)

## Child in the City

### 20-22 Hydref 2004, Llundain

Cynhadledd Ewropeaidd ar wella bywyd i blant sy'n byw mewn dinasoedd Cysyllter â Sefydliad Child in the City yn [svanbeek@europoint-bc.com](mailto:svanbeek@europoint-bc.com)

neu gweler [www.euro-point-bc.com](http://www.euro-point-bc.com)

**Ymddiheuriadau i Marc Armitage o Play People, a ysgrifennodd rifyn am chwarae yn Sweden ar gyfer ein rhifyn diwethaf. Rhoddwyd y cyfeiriad e-bost anghywir ar ei gyfer. Medrwyd gysylltu ag ef yn [marc.armitage@playpeople.karoo.co.uk](mailto:marc.armitage@playpeople.karoo.co.uk)**

**Mae Play People yn darparu gwasanaeth ymgynghoriaeth chwarae ac ymchwil**

## GWASANAETH HYSBYSEBU SWYDDI RHAD AC AM DDIM

Peidiwch colli'r cyfle i ledaenu'r gair am eich swyddi gwag yn rhad ac am ddim. Hysbysebwn swyddi chwarae yng Nghymru yn ddi-dâl ar ein gwefan. Nod y gwasanaeth yw helpu sefydliadau heb fawr neu ddim cyllideb hysbysebu, ond mae ar gael i bob darparwyd chwarae.

"Fe wnaethom ddod o hyd i'n gweithiwr all-estyn drwy hysbysebu drwy Chwarae Cymru, sy'n eironig gan ein bod newydd wario llawer o arian ar hysbysebu mewn papur newydd cenedlaethol," Janet Matthews, Cyfarwyddyd Cymdeithas Genedlaethol Llyfrgelloedd Tegau a Hamdden

Peidiwch anghofio edrych am swyddi yn [www.playwales.org.uk/jobs](http://www.playwales.org.uk/jobs)

## Cyllid

### Ymddiriedolaeth Elusennol Abbey

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Abey yn cynnig cyfraniadau o £500-£2,500 i fudiadau sy'n cefnogi pobl dan anfantais mewn cymunedau lleol. Gweler [www.abbeynational.com](http://www.abbeynational.com)

### Ymddiriedolaeth Elusennol Walter Guinness

Mae blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys plant, cymunedau, diwylliant, anabledd, ecoleg, ymchwil a ieuencid. Mae grantiau fel arfer tua £1,000 i £5,000. I gael manylion pellach ffoner 01582 399505.

### Cronfa Fawr y Loteri

Cronfa Fawr y Loteri yw'r corff a sefydlwyd yn dilyn uniad y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol i ddosbarthu arian y loteri i achosion da. Cynhaliwyd ymgynghoriad Cymru ar sut y dylai weithredu ddechrau mis Gorffennaf.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi cynhyrchu papur briffio yn rhoi sylw i gefndir y Gronfa, y gwaith, rhaglenni cyllid, digwyddiadau ymgynghori a mateiron allweddol ar gyfer y sector gwirfoddol. Mae copïau o'r briffiad ar gael o'r Ddesg Gymorth ar 0870 607 1666 e-bost [help@wvca.org.uk](mailto:help@wvca.org.uk) neu medrir ei lawrlwytho o'u gwefan yn [www.wvca.org.uk/content/policy](http://www.wvca.org.uk/content/policy)

### Y Gronfa Gymunedol

Mae llai o geisiadau i'r Gronfa Gymunedol yng Nghymru nag erioed o'r blaen. Anogir sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud cais. I gael manylion pellach ffoner 01686 611700

### Claming Your Share – A Guide to External Funding for Parks and Green Space Community Groups

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi cyngor ar wneud ceisiadau ac yn cynnwys rhestr o gyrrff cyllido a rhoi grantiau. Mae'n adnodd un-stop gwerthawr ar gyfer pobl sy'n dymuno gwella/sefydlu parciau lleol a gofod awyr agored cymunedol. Ffôn 0118 946 9050 e-bost [info@green-space.org.uk](mailto:info@green-space.org.uk) neu [www.green-space.org.uk](http://www.green-space.org.uk)

## Cyhoeddiadau

### Esbonio'r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol

Mae'r cyhoeddiad newydd hwn gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn rhoi cyflwyniad clir ar y Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol. Mae Get In on the Act: The Anti-Social Behaviour Act yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y bydd y Ddeddf yn olygu ac yn amlinellu'r prif faterion gweithredu gyda dyddiadau allweddol. Mae hefyd yn rhoi manylion cyhoeddiadau a gwefannau defnyddiol eraill. Medrir prynu copïau ar-lein yn [www.lga.gov.uk](http://www.lga.gov.uk) (adran cyhoeddiadau) neu ffonio LG Connect ar 020 7664 3131.

### Can Play Will Play – plant anabl a mynediad i feysydd chwarae awyr agored

Mae' Cymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar ar ran cyntaf ei brosiect i ymchwilio anghenion chwarae plant anabl ar feysydd chwarae cyhoeddus heb arolygaeth. Cynhaliwyd ymchwil gan Alison John, a siaradodd ar faterion anabledd yng nghynhadledd Ysbryd Chwarae Antur Chwarae Cymru a Rob Wheway.

Mae'r adroddiad yn trafod rhyddid plant anabl i chwarae a'u defnydd o offer chwarae sefydlog. Mae hefyd yn gwneud argymhellion ar wneud meysydd chwarae yn fwy hygyrch. I gael gwybodaeth bellach cysyllter â Don Earley ar 024 7652 1122 neu lawrlwytho'r ddogfenn o [www.playing-fields.com/content/playforchildren](http://www.playing-fields.com/content/playforchildren)